

Deiseb P-05-805

Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi

Mawrth 2021

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi'i ystyried ynghylch deiseb ar statws cyflogaeth a hawliau athrawon cyflenwi yng Nghymru. Mae'n cynnwys nifer o argymhellion a wnaeth y Pwyllgor.

Y Ddeiseb

- Cyflwynwyd deiseb P-05-805 Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi gan Sheila Jones ym mis Ebrill 2018 ar ôl derbyn cyfanswm o 1,425 o lofnodion, yn cynnwys 997 a gasglwyd ar-lein a 428 ar bapur.

Testun y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw am i athrawon cyflenwi gael eu talu'n deg a chael mynediad llawn at gyfleoedd hyfforddi a thelerau ac amodau eraill. Dylai fod athro cymwys ym mhob ystafell ddosbarth a dylai arian trethdalwyr fod yn cael ei wario'n uniongyrchol ar addysg, heb fynd i boedi asiantaethau preifat. Mae athrawon cyflenwi'n cael cam ac mae athrawon yn gadael y proffesiwn oherwydd na allant fforddio bod yn athrawon cyflenwi. Mae asiantaethau'n lleihau cyflog athrawon cyflenwi 40 i 60 y cant ac mae athrawon yn colli eu pensiynau. Mae'r sefyllfa'n enghraift o ddefnyddio arian cyhoeddus i greu elw i'r sector preifat. Mae gwersi'n cael eu darparu gan staff anghymwys.

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau (y Pwyllgor) o'r ddeiseb. Gellir dod o hyd i'r holl dystiolaeth a ddaeth i law ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.



3. Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ar 1 Mai 2018, ac mewn 11 cyfarfod arall, gan edrych ar ohebiaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru, y deisebydd a rhanddeiliaid amrywiol.

4. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg (y Gweinidog) yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 2019.

5. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at randdeiliaid i ofyn am eu barn ar y ddeiseb. Cafwyd 10 o ymatebion. Daeth y rhain gan undebau'r athrawon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cyngor y Gweithlu Addysg ac Estyn. Cafwyd sylwadau hefyd gan ddau unigolyn a'r deisebydd. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sylwadau gan asiantaethau reciwtio, ac fe gafwyd ymatebion gan chwe asiantaeth.

6. Ym mis Ionawr 2020 cytunodd y Pwyllgor i lunio adroddiad cryno o'i ystyriaeth o'r ddeiseb, gan gynnwys argymhellion, ond bu oedi wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn yn sgil pandemig y coronafeirws.

1. Cefndir

7. Gwnaed gwaith blaenorol gan y Senedd a Llywodraeth Cymru ynghylch Athrawon Cyflenwi yng Nghymru, gan gynnwys gwaith gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pedwerydd Cynulliad. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Gweinidogol y Model Cyflenwi Athrawon ym mis Mehefin 2016 i ystyried materion yn ymwneud ag athrawon cyflenwi. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar 2 Chwefror 2017 a derbyniodd y Gweinidog y rhan fwyaf o'r argymhellion.

8. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ym mis Mawrth 2018, yn manylu'r camau a gymerwyd yn dilyn adroddiad y Tasglu, gan gynnwys bod Llywodraeth Cymru wedi:

- Mynd i'r afael â materion yn nhermau rolau a chyfrifoldebau diogelu i gyflogwyr'
- Cyhoeddi canllawiau ar Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010;
- Rhoi trefniadau ar waith er mwyn i'r holl athrawon cyflenwi gofrestru ar gyfer mynediad personol at adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar Hwb (platfform dysgu addysg Llywodraeth Cymru);
- Cyhoeddi canllawiau symlach ar 'Reoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' i rannu'r arfer da y mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'i fabwysiadu wrth reoli absenoldeb wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio;

- Hyrwyddo Canllaw Pecyn Offer – Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru i'r sector addysg, gan gynnwys asiantaethau reciwtio masnachol.

9. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

“Hoffwn weld modelau llwyddiannus ar waith i ddarparu athrawon cyflenwi dros dro ym mhob un o'n hysgolion ac rydym yn gweithio at system lle mae staff addysgu o safon dda ar gael, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr, a lle bydd staff addysgu'n cael eu trin yn deg a'u datblygu'n briodol.”¹

10. Ar ôl trosglwyddo cyfrifoldeb am gyflog ac amodau athrawon i Lywodraeth Cymru ar 30 Medi 2018, rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad pellach, yn manylu ar y model cenedlaethol ar gyfer cytuno ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru.

11. Dywedodd y Gweinidog fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn diwygio'r fanyleb dendro ar gyfer y fframwaith gwasanaeth a reolir ar gyfer gweithwyr asiantaeth, a bod:

“swyddogion polisi a chydweithwyr sy'n gyfrifol am y Cod Ymarfer ar Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cydweithio â'r Gwasanaeth Caffael i sicrhau bod y trefniadau'n cefnogi ein blaenoriaethau polisi o ran cenhadaeth ein cenedl ym maes addysg, a'u bod yn diwallu anghenion y dyfodol ac yn cyd-fynd â'n hegwyddorion Gwaith Teg. Nod y newidiadau yw sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer ein hysgolion a'n dysgwyr a sicrhau tegwch ar gyfer staff a roddir yn ysgolion Cymru drwy'r asiantaethau cyflenwi masnachol...Ymhlið y newidiadau arfaethedig mae: contractau a fydd yn cael eu cynnig ar sail lotiau daearyddol, isafswm ar gyfer cyfraddau cyflog athrawon cyflenwi, a thryloywder o ran y ffioedd y gellir eu codi gan yr asiantaethau masnachol, gan gynnwys ffioedd dros dro i barhaol.”²

12. Mewn gohebiaeth bellach, manylodd y Gweinidog:

“Fel rhan o'r broses o sefydlu dulliau gweithredu cryf ar gyfer pennu cyflogau ac amodau athrawon rydym yn reciwtio aelodau ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau yng Nghymru ... Er mwyn cefnogi'r trefniadau newydd, rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth Cyflogau ac

¹ [Llythyr gan y Gweinidog Addysg](#), 6 Mawrth 2018

² [Llythyr gan y Gweinidog Addysg](#), 19 Hydref 2018

Amodau Athrawon sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, sefydliadau cyflogwyr a chyrrf cynrychioliadol undebau.”³

- 13.** Roedd gohebiaeth ddilynol ym mis Chwefror 2019 yn rhoi manylion ychwanegol ar Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru:

“Cyn gynted ag y bydd aelodau'r Corff Annibynnol Adolygu Cyflogau wedi'u penodi byddant yn ystyried pob agwedd o gyflogau ac amodau gwaith athrawon yn unol â thelerau'r llythyr cylch gwaith blynnyddol, yn dilyn trafodaeth â grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys yr undebau addysgu. Bydd y Corff Adolygu yn cynnwys cynrychiolwyr annibynnol a fydd wedi'u penodi ar ôl dilyn proses ffurfiol penodiadau cyhoeddus. Mae'r broses honno'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Os bydd ei gylch gwaith yn caniatáu, bydd y Corff Adolygu yn gallu ystyried a gwneud argymhellion ynghylch cyflogau athrawon dros dro a gyflogir yn y sector a gynhelir ...”

Mae'r Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl undebau addysgu ac o'u cyflogwyr. Mae'r aelodau o'r undebau athrawon yno i gynrychioli barn eu haelodau i gyd, gan gynnwys athrawon cyflenwi. O dan y trefniant rheoli ysgolion yn lleol, mater i gyrrf llywodraethu ysgolion a/neu'r awdurdod lleol fel cyflogwyr athrawon yw penderfynu sut orau i lenwi bylchau a achosir gan absenoldebau athrawon boed wedi eu cynllunio neu beidio.”⁴

- 14.** Ym mis Tachwedd 2020, lluniodd Archwilio Cymru adroddiad: Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant.

- 15.** Ers i'r Pwyllgor ddechrau ystyried y ddeiseb hon ym mis Mai 2018, bu nifer o newidiadau i'r darpariaethau ar gyfer athrawon cyflenwi.

Gorffennaf 2019	Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dyfarnu'r contract diweddaraf ar gyfer cyflogi staff asiantaeth mewn addysg, i redeg am 3 blynedd o 1 Medi 2019
Tachwedd 2019	Cyhoeddi gwerthusiad interim o gynlluniau peilot cyflogaeth y model cyflenwi.
Chwefror 2020	Llywodraeth Cymru yn diweddar canllawiau ar reoli presenoldeb gweithlu ysgolion, gan gynnwys manylion am y contract cenedlaethol newydd.
Mawrth 2020	Datganiad Llywodraeth Cymru ar staff dros dro yr effeithir arnynt gan gau ysgolion yn ystod pandemig y coronafeirws.

³ Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 7 Rhagfyr 2018

⁴ Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 11 Chwefror 2019

Gorffennaf 2020	Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllid i gefnogi dysgwyr y mae pandemig y coronafeirws wedi tarfu ar eu haddysg - mae'n bosibl y gellir darparu cymorth gan y gweithlu cyflenwi ac athrawon newydd gymhwys.
Gorffennaf 2020	Cyhoeddi adroddiad dilynol ar gynlluniau peilot cyflogaeth y model cyflenwi.
Tachwedd 2020	Cyhoeddi adroddiad Archwilio Cymru. <u>Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilynant</u> .

2. Materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deisebau

Hyfywedd cael datrysiaid sector cyhoeddus ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi yng Nghymru

- 16.** Nid yw athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaethau cyflogaeth yn cael eu cyflogi yr awdurdod lleol na'r ysgol ac felly nid ydynt yn dod o dan y ddogfen cyflog ac amodau. Yn gyffredinol, mae athrawon cyflenwi asiantaeth yn cael eu cyflogi gan eu hasiantaeth unigol ac felly maent yn ddarostyngedig i'r cyflog ac amodau a bennir ganddynt. Nid oes gan athrawon sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaeth athrawon cyflenwi fynediad i'r Cynllun Pensiwn Athrawon.
- 17.** Roedd pryderon y deisebwyr ynghylch y trefniadau hyn wrth wraidd y ddeiseb. Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch arferion rhai asiantaethau, amrywiadau mewn cyfraddau cyflog rhwng gwahanol asiantaethau ac awdurdodau lleol a maint y ffioedd a oedd yn cael eu hadennill gan asiantaethau.⁵
- 18.** Nododd rhanddeiliaid fod cefnogaeth ar y cyfan dros gael dull mwy canolog ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Er enghraift, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon⁶ a Chyngor y Gweithlu Addysg⁷ y gellid ystyried model cenedlaethol.
- 19.** Fodd bynnag, awgrymodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon⁸ nad oes gan awdurdodau lleol o bosibl yr adnoddau na'r arbenigedd i allu ailgyflwyno

⁵ [Gohebiaeth gan y deisebwyr](#), 25 Ebrill 2018

⁶ [Gohebiaeth NAHT](#), 26 Mehefin 2019

⁷ [Gohebiaeth EWC](#), 20 Mai 2019

⁸ [Gohebiaeth NAHT](#), 26 Mehefin 2019

datrysiaid sector cyhoeddus eu hunain, a dywedodd CLILC⁹ nad yw awdurdodau lleol yn cynnal rhestrau cronfeydd cyflenwi oherwydd goblygiadau adnoddau.

20. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau¹⁰ a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon¹¹, o ystyried y sefyllfa ariannu bresennol ar gyfer ysgolion, gallai fod anawsterau mewn perthynas â thalu costau uwch i athrawon cyflenwi a allai ddeillio o ddatrysiaid sector cyhoeddus.

21. Dywedodd Estyn¹² y byddai angen i unrhyw fodel cenedlaethol ddarparu gwasanaeth dibynadwy o safon uchel i ysgolion ym mhob rhan o Gymru gan gynnwys mewn pynciau â phrinder, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig.

22. Dwedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)¹³ ei bod yn credu y byddai opsiwn tebyg i Ogledd Iwerddon, lle mai'r Ilywodraeth yw'r cyflogwr, yn hyfyw a nododd nad oedd wedi gweld unrhyw fanylion am unrhyw adran ddeddfwriaethol na chynsail a fyddai'n atal hyn. Roedd y deisebwyr¹⁴ hefyd yn dadlau o blaid efelychu'r model hwn yng Nghymru.

23. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd mor syml â chymryd model Gogledd Iwerddon a dod ag ef i Gymru, er ei bod yn cydnabod bod yna fanteision enfawr ac nad oes unrhyw beth i atal ysgolion unigol, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol i gydweithio i ddatblygu rhestrau.¹⁵

24. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

“One of the things that we have done, and one of the reasons for our pilot project, is to be able to demonstrate how different systems may operate to provide that evidence to schools and local authorities—that there are different ways, through direct employment, which would negate the need to use agencies. But I think the challenge is, in the current context of local management of schools, and that legal set-up, what are the constraints to improving the system? We're trying to do that in two ways, as a Government, because I think the system does need improving, and that is, as I said, to demonstrate the viability and

⁹ [Gohebiaeth CLILC](#), 25 Mehefin 2019

¹⁰ [Gohebiaeth ASCL](#), 26 Mehefin 2019

¹¹ [Gohebiaeth NAHT](#), 26 Mehefin 2019

¹² [Gohebiaeth Estyn](#), 19 Mehefin 2019

¹³ [Gohebiaeth NEU](#), 24 Mehefin 2019

¹⁴ [Gohebiaeth gan y deisebwyr](#), 21 Mai 2018

¹⁵ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Ebrill 2019, paragraff 6

the benefits of different models whilst also trying to reform the agency model at the same time.”¹⁶

25. Mewn gohebiaeth gynharach ar ddiwedd 2018, dywedodd y Gweinidog:

“Nid wyf yn diystyr u gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi’r broses o gyflwyno trefniadau ar gyfer trefniant cyflenwi canolog neu ranbarthol yn y dyfodol. Datganolwyd y cyfrifoldeb dros gyflogau ac amodau athrawon i Weinidogion Cymru ar 30 Medi. Bydd y corff adolygu yn ystyried dystiolaeth gan yr holl randdeiliaid allweddol a bydd yn cynhyrchu adroddiad ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau arfaethedig i gyflogau ac amodau athrawon yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar y telerau a nodir mewn llythyr cylch gwaith ffurfiol. Er mwyn cefnogi’r trefniadau newydd, rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth Cyflogau ac Amodau Athrawon sy’n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, sefydliadau cyflogwyr a chyrff cynrychioliadol undebau. Mae’r Fforwm yn cynnig cyfle i drafod a chytuno ar rai o’r materion y bydd angen eu cynnwys mewn llythyrau cylch gwaith yn y dyfodol i’r corff adolygu cyflogau.”¹⁷

Y gwelliannau a allai ddeillio o’r trefniadau contract fframwaith newydd

26. Fel y cyfeiriwyd ato yn adran 1, mae’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi diwygio’r fanyleb dendro ar gyfer y fframwaith gwasanaeth a reolir ar gyfer gweithwyr asiantaeth ym maes addysg. Cafodd ei ddyfarnu ym mis Gorffennaf 2019, i redeg am 3 blynedd o 1 Medi 2019.

27. Roedd y fanyleb flaenorol wedi bod ar waith ers 2015, gyda New Directions fel y ‘darparwr a ffefrir’. Roedd pob awdurdod lleol wedi cofrestru i ddefnyddio’r fframwaith i fodloni eu gofynion athrawon cyflenwi, er nid yw ysgolion yn rhwym i’r fframwaith ac maent rhydd i ddefnyddio unrhyw ddull cyflenwi i gyflenwi eu gwersi. Cafodd y trefniadau fframwaith blaenorol eu beirniadu gan y deisebwyr ac eraill, gan gynnwys am ei fod wedi arwain at leihau cyflogau athrawon cyflenwi ac oherwydd nad oedd ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol yn gallu cyflogi’n uniongyrchol yn ymarferol oherwydd diffyg rhestrau cyflenwi a chyfleusterau cyflogres.¹⁸

28. Yn ystod ei dystiolaeth i’r Pwyllgor, amlinellodd y Gweinidog rai o nodweddion y fanyleb newydd a’r rheolaethau a fyddai ar waith:

¹⁶ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Ebrill 2019, paragraff 6

¹⁷ [Llythyr gan y Gweinidog Addysg](#), 7 Rhagfyr 2018

¹⁸ [Gohebiaeth gan y deisebwyr](#), 6 Medi 2018

“... we will introduce a minimum daily pay rate, below which agencies will not be allowed to pay. We've had a national basis, which has meant the domination of a single supplier. The new contract will be let on a local authority basis, so, actually, we should be able to have greater choice for schools in who they can work with, because it's done on smaller lots rather than an all-Wales lot. We will require all agencies to be members of the relevant professional recruitment body. We will ensure that all agencies work within the code of practice for ethical employment. We are ensuring that all agencies offer a minimum of professional training to people on their books.”¹⁹

29. Clywodd y Pwyllgor rywfaint o gytundeb gan randdeiliaid bod y contract newydd yn welliant o gymharu â'r un blaenorol.

30. Dywedodd Estyn y gallai'r gyfradd gyflog ddyddiol isaf helpu athrawon cyflenwi i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd hyfforddi, fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi pryderon mai canlyniad anfwriadol o dalu cyfradd i athro cyflenwi yn unol â'u profiadau yw y gallai annog ysgolion i beidio â chyflogi athrawon mwy profiadol, ac felly athrawon drutach.²⁰

31. Awgrymodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y dylid talu athrawon yn ôl eu profiad, sef pwynt a wnaed gan y deisebwyr hefyd.²¹

32. Gwnaeth NAWSUT, a oedd wedi ysgrifennu cyn i'r fanyleb gael ei dyfarnu, gwestiynu sut y bydd yr asiantaethau o fewn y contract yn cael eu rheoleiddio neu eu fetio a dywedodd y dylid archwilio a gorfodi.²²

33. Awgrymodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod y contract yn ddiffygol gan y bydd ysgolion yn dal i allu dewis asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r contract. Gwnaed pwynt tebyg gan y deisebydd a awgrymodd y bydd tua 28 asiantaeth yn rhan o'r contract²³ - dywedodd yr EWC ei fod ar hyn o bryd yn ymdrin â thua 65 asiantaeth.²⁴

34. Awgrymodd Estyn y dylid cael rheoliadau i reoli ffioedd asiantaeth; cyfraddau cyflog; a mwy o dryloywder ynghylch cyllid asiantaeth.²⁵

¹⁹ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Ebrill 2019, paragraph 23

²⁰ [Gohebiaeth, Estyn](#), 19 Mehefin 2019

²¹ [Gohebiaeth, NEU](#), 24 Mehefin 2019

²² [Gohebiaeth, NASUWT](#), 26 Mehefin 2019

²³ [Gohebiaeth gan y deisebwyr](#), 2 Gorffennaf 2019

²⁴ [Gohebiaeth, EWC](#), 20 Mai 2019

²⁵ [Gohebiaeth, Estyn](#), 19 Mehefin 2019

35. Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed gan asiantaethau cyflenwi eu hunain. Amlinellodd asiantaeth recriwtio Vetro rai newidiadau a allai godi o ganlyniad i'r fframwaith newydd, gan gynnwys:

- Bydd ysgolion yn destun cyfraddau taliadau uwch yn unol â'r gyfradd cyflog sydd uwch newydd ar gyfer athrawon cwbl gymwys yng Nghymru.
- Bydd athrawon yn cael eu talu'n well ac yn fwy teg.
- Rydym wedi cael trafodaethau gydag ysgolion lle maent wedi nodi bod cyllidebau addysg eisoes wedi'u hymestyn ac efallai na allant dalu'r gyfradd uwch.
- Mae hefyd wedi bod yn gyhoeddus ac wedi ei gyfleu i ni gan rai ymgeiswyr bod rhai asiantaethau sydd ar y fframwaith yn bwriadu peidio â dilyn cyfradd gyflog yr M1.
- Gallai tâl uwch mewn rhai ardaloedd yng Nghymru annog mwy o athrawon i deithio dros y ffin o Loegr a gweithio yng Nghymru. Efallai y bydd hyn, ynghyd â chael gwared ar y doll ar bont yr M4, yn gwneud y swyddi yng Nghymru yn ddeniadol iawn i deithio iddynt.
- Lle mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd talu'r gyfradd ddyddiol uwch, rydym yn rhagweld cynnydd yn y defnydd o oruchwylwyr cyflenwi, cynorthwywyr addysgu lefel uwch ac athrawon heb gymhwysos sy'n cyflenwi dosbarthiadau yn lle athrawon cwbl gymwys.
- Gydag athrawon yn cael cyfradd ddyddiol sylweddol uwch, rydym yn rhagweld cynnydd yn y staff sy'n aros yn y sector addysg yn hytrach na gadael am swyddi eraill y tu allan i'r byd addysg.
- Gydag athrawon mewn sefyllfa i ennill cyfradd ddyddiol uwch - bydd gweithio fel athro cyflenwi yn fwy hyfw yn ariannol ac yn apelio i ymgeiswyr at y dyfodol.
- Rydym yn rhagweld y gallai'r cyflog uwch arwain at dwf yn nifer y bobl sy'n dilyn hyfforddiant i ddod yn athro ac athro newydd gymhwysos yn cwblhau eu blwyddyn gynefino.²⁶

²⁶ Cohebiaeth Vetro Recruitment, 6 Medi 2019

- 36.** Roedd Recruit 2 Schools hefyd o'r farn bod y fframwaith yn welliant, gan gynnig gwell tryloywder. Fodd bynnag, roedd yn codi pryder, gan nad yw'n orfodol, bod yna gyfle i asiantaethau nad ydynt ar y Fframwaith danseilio'r rhai sydd ar y Fframwaith, a chyflenwi i ysgolion.²⁷
- 37.** Roedd MPS Education o'r farn bod athrawon, mewn rhai ardaloedd, yn barod i dderbyn tâl islaw'r isafswm cyfradd y cytunwyd arni:
- "a significant number of qualified teachers are afraid of losing regular employment and are thus prepared to 'go along' with remuneration below the nationally agreed minimum benchmark".²⁸
- 38.** Dywedodd y Gweinidog, o dan y dull newydd, y byddai rheolaethau llymach ar y ffordd y gellid defnyddio contractau gydag athrawon cyflenwi.²⁹ Mynegodd obaith hefyd y byddai gwell tryloywder - yn enwedig mewn perthynas â ffioedd - yn arwain at well arfer:
- "... I have been concerned, and I know many Members in the Assembly have been concerned, about the lack of transparency around fees and profits that are made by these organisations. So, there will be a requirement to make it very visible—so, when schools are using the services of an agency, how much of that cost is the pay of the teacher and how much of that is an agency fee? We're trying to increase transparency in the system as well, so there is greater transparency about the fees that agencies are charging, and that's money that is not going to the teacher. Hopefully, that greater information will lead to better practices and empower teachers, headteachers, or those people in a school making decisions about deployment, so that they can really see where their money is going."³⁰
- 39.** Hefyd rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar waith a wnaed gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o faint o ddewis a'r opsiynau sydd ar gael iddynt:

"We have been working with the WLGA, and the WLGA has recently written to all directors of education reminding them and bringing to their attention the rights of schools to appoint and employ teachers directly. Sometimes we've had correspondence that said that schools feel that they've got no choices and that they have to work in a certain way, and we want to remind directors of education that they can't force

²⁷ [Gohebiaeth. Recruit 2 Schools](#), 10 Medi 2019

²⁸ [Gohebiaeth. MPS Education](#), 23 Hydref 2019

²⁹ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Ebrill 2019, paragraff 17

³⁰ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Ebrill 2019, paragraff 24

schools down a particular route because it's actually their responsibility and there are other ways of doing it, because some of the feedback we've had is that headteachers have said they wanted to directly employ someone or work in a different way, but perhaps their director of education has suggested that they need to use the national agency approach. We're just reminding people that there are other ways and schools have the right to do it differently.”³¹

40. Ym mis Tachwedd 2020, nododd Archwilio Cymru fuddion i'r contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth, ond roedd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu'r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio'n unol â disgrifiad eu swyddogaethau;
- annog ysgolion i ddefnyddio ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn elwa ar ei safonau ansawdd a'i drefniadau diogelu; ac yn
- monitro'r gyfradd sy'n manteisio ar ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn gweld a yw ysgolion yn newid i ddefnyddio asiantaethau y tu hwnt i ofynion y contract.³²

41. Roedd Archwilio Cymru o'r farn bod risgiau a fyddai'n arwain at ysgolion yn gwneud penderfyniadau sy'n tanseilio'r contract fframwaith, megis "gallai ysgolion ddefnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch i gyflenwi yn y tymor byr yn hytrach nag athrawon cyflenwi; a/neu gallai ysgolion ddefnyddio asiantaethau y tu allan i'r contract cenedlaethol er mwyn lleihau costau".³³

Cyfleoedd neu risgiau posibl ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n deillio o ddatganoli cyflog ac amodau i athrawon

42. Nododd rhanddeiliaid y gallai model cenedlaethol fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflog ac amodau a mynediad at ddysgu proffesiynol a'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

43. Cytunodd pawb a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad fod datganoli cyflog ac amodau yn gyfle i ddarparu gwelliannau i'r gweithlu addysgu cyflenwi.

³¹ Cofnod y Trafodion, 2 Ebrill 2019, paragraff 65

³² Archwilio Cymru, [Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilynant](#), Tachwedd 2020

³³ Archwilio Cymru, [Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilynant](#), Tachwedd 2020

Dyweddodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon³⁴ a'r Undeb Addysg Cenedlaethol³⁵ y dylai Bwrdd Adolygu Cyflog Annibynnol Cymru fod yn gyfrifol am ystyried y materion hyn.

44. Dywedodd³⁶ Cyngor y Gweithlu Addysg y byddai goblygiadau yn sgil newid i ddatrysiaid rhanbarthol neu genedlaethol oherwydd y mater o ran pwy sy'n cyflogi athrawon.

45. Cyfeiriodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon at natur gyfyngedig cwantwm cyffredinol y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a'r risg o beidio â sicrhau cydraddoldeb â Lloegr.³⁷

46. Mynegodd Estyn farn y gallai'r trefniadau cyfredol, lle mae ysgolion yn talu cyfradd sefydlog i asiantaethau, gynrychioli arbedion cost sylweddol i ysgolion.³⁸

47. Manylodd rhai asiantaethau recriwtio ar eu dull o dalu athrawon cyflenwi:

"Hoop Education are fully committed to paying our qualified teachers a minimum daily rate of £121.64, in line with the M1 pay scale point. There are no payroll or agency fees involved whilst working with Hoop, with the above daily rate being paid to the assigned teacher in full. This rate is inclusive of holiday pay, which is accrued weekly and can be claimed by the teacher at any point. Reminders are sent to teachers on a regular basis so that all holiday pay is fully claimed."³⁹

48. Nododd Excell Supply fod peth dryswch ynghylch y dull o dalu athrawon cyflenwi, gan gyfeirio at ddau fater:

"... a number of our schools have contacted us and told us that one of our competitors has informed them that decision to pay the minimum pay rate to teachers is down to the school and if the school wish to save money then they don't have to pay the increased rate, and the increase would only kick in after 12 weeks due to AWR and that the NPS cannot force them to pay the minimum rate. The second was seeing a letter from the NASUWT to teachers informing them that agencies have to pay the increased rate and for teachers to let them know of any agencies that aren't paying it. So, the framework is only two weeks old and there is already some confusion on the subject of pay. After the first

³⁴ Gohebiaeth, NAHT, 26 Mehefin 2019

³⁵ Gohebiaeth, NEU, 24 Mehefin 2019

³⁶ Gohebiaeth, EWC, 20 Mai 2019

³⁷ Gohebiaeth, NAHT, 26 Mehefin 2019

³⁸ Gohebiaeth, Estyn, 19 Mehefin 2019

³⁹ Gohebiaeth, Hoop Education, 23 Awst 2019

two weeks of the academic year 80% of our schools have told us they do not wish to pay the minimum pay rate to teachers.”⁴⁰

- 49.** Esboniodd y Gweinidog, yn dilyn datganoli cyflog ac amodau i athrawon ym mis Medi 2019, mai ei blaenoriaeth oedd:

“... to ensure that that process runs really smoothly and gives confidence to the teaching profession in Wales of our ability to run that system really well.”⁴¹

- 50.** Wrth roi diweddariad ym mis Rhagfyr 2019, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r GCC wedi bod yn monitro cyfraddau cyflog, gan weithredu ar adborth gan athrawon cyflenwi, adolygu gwefannau/hysbysebion swyddi a thrafod gydag asiantaethau i roi sylw i unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth. Mewn achosion lle'r oedd problem yn codi gydag asiantaeth, cywirwyd hynny ar unwaith.”⁴²

- 51.** Dywedodd y Gweinidog hefyd fod New Directions wedi nodi bod 88 y cant o'i archebion ar gyfer athrawon cyflenwi ym mis Medi 2019 ar y gyfradd gyflog isaf. Aeth y Gweinidog yn ei blaen:

“Nid oedd y 12% sy'n weddill ar yr isafswm, ar gais yr ysgol. Y tueddiad yn yr ohebiaeth sy'n dod i law y GCC ar hyn o bryd yw mai'r ysgolion sy'n gwneud y penderfyniad i beidio talu isafswm y gyfradd gyflog. Pan fo hyn yn dod i sylw'r GCC, naill ai drwy asiantaeth neu athro cyflenwi, mae'r mater yn cael ei adrodd yn ôl i'r awdurdod lleol unigol er mwyn iddynt godi'r mater gyda'r ysgol dan sylw.”⁴³

- 52.** Ym mis Tachwedd 2020, nododd Archwilio Cymru:

“Er bod cyflogau athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau sydd ar y fframwaith wedi cynyddu, ni wyddom a yw'r nod hwn wedi ei gyflawni'n llwyr oherwydd nad ydym yn gwybod a yw athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu talu yn unol â'u profiad a'u safle ar raddfa gyflog athrawon.”⁴⁴

Trefniadau ar gyfer dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi, yn enwedig yn sgil newidiadau addysg cyfredol.

⁴⁰ Gohebiaeth, Excell Supply, 16 Medi 2019

⁴¹ Cofnod y Trafodion, 2 Ebrill 2019, paragraff 23

⁴² Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 9 Rhagfyr 2019

⁴³ Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 9 Rhagfyr 2019

⁴⁴ Archwilio Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant, Tachwedd 2020

- 53.** Roedd NASUWT yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ei sicrhau y bydd athrawon cyflenwi yn gallu cael gafael ar gyllid i gefnogi eu dysgu eu hunain.⁴⁵
- 54.** Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y dylai'r cyllid a gyhoeddwyd ar gyfer dysgu proffesiynol (£24 miliwn dros ddwy flynedd) gynnwys elfen ar gyfer y gweithlu cyflenwi.⁴⁶
- 55.** Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau nad yw'n briodol i athrawon cyflenwi fod yn gyfrifol am eu dysgu proffesiynol eu hunain oherwydd efallai nad oes ganddynt fynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel ac, er y byddai darpariaeth ganolog yn ddrud ac yn anodd ei chydlyn, y dylid ei harchwilio.⁴⁷
- 56.** Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon fod angen cynllunio dysgu proffesiynol o safon yn genedlaethol a'i ddarparu trwy adnoddau ychwanegol wedi'u hymrwymo.⁴⁸
- 57.** Dywedodd Estyn fod cyfleoedd i athrawon cyflenwi ar gontactau tymor byr yn amrywiol, ac ar hyn o bryd nid oes digon o ddysgu proffesiynol i athrawon cyflenwi.⁴⁹
- 58.** Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg y dylai fod gan yr holl staff cyflenwi (athrawon a staff cymorth) hawl i ddysgu, wedi'i deilwra i gyfnod gyrfa penodol yr unigolyn.⁵⁰
- 59.** Amlygodd rhai asiantaethau cyflenwi eu hymrwymiad i ddysgu ar gyfer athrawon cyflenwi. Dywedodd Hoop Education:

“As a teacher-led agency, we are particularly committed to the provision of CPD opportunities for our supply teachers. In addition to our partnership with the accredited educational training facility, Educare, we provide several internal training courses for our teachers, free of charge, offering practical advice and guidance drawn from our own knowledge and experiences as practitioners.”⁵¹

⁴⁵ Gohebiaeth, NASUWT, 26 Mehefin 2019

⁴⁶ Gohebiaeth, NEU, 24 Mehefin 2019

⁴⁷ Gohebiaeth, ASCL, 26 Mehefin 2019

⁴⁸ Gohebiaeth, NAHT, 26 Mehefin 2019

⁴⁹ Gohebiaeth, Estyn, 19 Mehefin 2019

⁵⁰ Gohebiaeth, EWC, 20 Mai 2019

⁵¹ Gohebiaeth, Hoop Education, 23 Awst 2019

60. Amlinellodd y Gweinidog y newidiadau a wnaed i ganiatáu i athrawon cyflenwi gael mynediad i Hwb, gan gynnwys newidiadau i'r broses mewngofnodi, a nododd fod gan 600 o athrawon cyflenwi fynediad i Hwb:

"With regard to training, under the new contract, those applying to be on the contract will have to provide free professional learning opportunities for those working in those agencies. Obviously, this is a crucial time for professional development for the entirety of the workforce, as we move towards the new national curriculum, and we're not just relying on agencies to provide that training, we're working with our regional consortia to ensure that the professional learning opportunities of supply staff are also addressed. So we're not just leaving it to the agencies, we're actually using these mechanisms that we've got to be able to develop programmes for supply teachers specifically, as we move towards the introduction of the new curriculum, because it's really important that all staff who could be working in our schools have the appropriate professional learning for that change.⁵²

61. Mae adroddiad Archwilio Cymru yn nodi:

"Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella adnoddau a gallu athrawon cyflenwi i gael hyfforddiant. Mae hyn yn parhau i fod yn her oherwydd mai trwy gyflogaeth y daw'r gallu i gael gafael ar hyfforddiant a chymorth yn aml. Mae asiantaethau cyflenwi wedi darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu. Mae adnoddau ar-lein ar y cwricwlwm newydd i Gymru ar gael i athrawon cyflenwi a all ddefnyddio Hwb, sef ei phlatfform digidol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog y consortia addysg rhanbarthol a'r cynghorau i ddarparu hyfforddiant i athrawon cyflenwi cyn y cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022. Anogir ysgolion i roi sylwadau perfformiad i staff cyflenwi, ond nid yw'n glir a yw hyn yn digwydd fel mater o drefn."⁵³

3. Y camau nesaf ac argymhellion

62. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi nodi sawl argymhelliaid isod.

63. Ar yr adeg y cyflwynwyd y ddeiseb yn wreiddiol ar ddechrau 2018 roedd cryn bryder ynghylch y trefniadau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi ac, yn benodol, y fframwaith gwasanaeth a reolir ar gyfer gweithwyr asiantaeth a oedd ar waith

⁵² Cofnod y Trafodion 2 Ebrill 2019, paragraffau 75 a 77

⁵³ Archwilio Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant, Tachwedd 2020

bryd hynny. Wrth ystyried y ddeiseb, mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo'n fawr â'r pryderon hynny ac wedi ceisio pwysô ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyfleoedd i archwilio a dilyn trefniadau amgen, sef datrysiaid sector cyhoeddus yn benodol.

64. Rydym hefyd yn cydnabod bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny, yn fwyaf arbennig trwy'r gwaith i adolygu'r fframwaith a gymerwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

65. Mae'n ymddangos bod gan y contract newydd, a ddyfarnwyd i redeg am 3 blynedd o fis Medi 2019, fanteision sylweddol dros y trefniadau blaenorol, yn anad dim mewn perthynas â chyflwyno isafswm cyfradd tâl dyddiol, mwy o ddewis i ysgolion a gofynion newydd ynghylch hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

66. Rydym o'r farn bod angen rhoi amser i'r trefniadau hyn, yr ydym yn cydnabod bod pandemig y coronafeirws wedi heffeithio arnynt, i ennill eu plwyf. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru eu hadolygu'n ofalus yn ystod yr amser sy'n weddill a dylem ystyried ymhellach bosibiliadau modelau amgen fel blaenoriaeth gynnar yn y Senedd nesaf, yn anad dim oherwydd bydd y pandemig wedi effeithio ar lawer o athrawon cyflenwi.

67. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod etholiad y Senedd sydd ar ddod yn golygu y bydd rhagor o benderfyniadau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Gymru yn y dyfodol ac mai'r Senedd nesaf fydd yn gwneud unrhyw waith craffu arall arnynt.

ARGYMHELLION

Argymhelliad 1. Y dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu effaith y Cytundeb Fframwaith Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol ar gyfer darparu gweithwyr dros dro ac athrawon cyflenwi, a ddyfarnwyd ym mis Medi 2019, er mwyn deall yn llawn ei effaith ar gyflog ac amodau'r gweithlu addysgu cyflenwi.

Argymhelliad 2. Fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru, dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint sy'n defnyddio'r Cytundeb Fframwaith i ddeall a yw ysgolion yn defnyddio asiantaethau y tu allan i'r contract hwnnw, a'r niferoedd.

Argymhelliad 3. Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried ymhellach drefniadau amgen ar gyfer cefnogi ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi, gan gynnwys cyflogaeth uniongyrchol a chyflwyno trefniadau cyflenwi canolog neu ranbarthol. Rydym o'r farn y byddai gan ddatrysiaid sector cyhoeddus fanteision sylweddol dros y model cyfredol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried cyflog ac amodau athrawon cyflenwi a dros dro fel rhan o'i gyfrifoldebau.
